# Ysgol Morfa Nefyn
# Llawlyfr rhieni

http://ysgolmorfanefyn.org








★Dringa i fyny, dringa i'r sêr!★

**Ysgol Morfa Nefyn**
Lôn yr Eglwys
Morfa Nefyn
Pwllheli
Gwynedd
LL53 6AR
☎ **01758 720 870**
✉ nia.ferris@morfanefyn.ysgoliongwynedd.cymru

Annwyl Rieni/ Gwarchodwyr,

Ysgol ar gyfer y Babanod a phlant hyd at Flwyddyn 3 yw Ysgol Morfa (plant 3-8 oed). Gobeithiwn y bydd y plant yn treulio blynyddoedd cyntaf eu haddysg mewn awyrgylch hapus a chartrefol gan ddatblygu'n addysgol a chymdeithasol.

Yn Ysgol Morfa Nefyn, rydym yn annog a chefnogi bob dysgwr i ddringo; dringo i'r sêr! Yn ystod eu cyfnod yma yn yr ysgol, bydd bob plentyn yn llwyddo i gyrraedd eu llawn potensial.

Drwy ein cwricwlwm bywiog, byddwn yn cynnwys plant mewn profiadau dysgu pwrpasol a chyffrous gan roi iddynt y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol. Drwy weithgareddau creadigol a chyfoethog byddwn yn datblygu pob plentyn i fod yn ddysgwyr annibynnol a mentrus; yn gyfranwyr sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes; yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus ac yn bwysig iawn i ni; yn unigolion iach ac hyderus.

Drwy wireddu ein gweledigaeth byddwn yn Ysgol Morfa Nefyn yn sicrhau fod bob plentyn yn dringo i fyny, dringo i'r sêr.

Yn gywir

*Nia Ferris*

Nia Ferris, Pennaeth



# Gwerthoedd Ysgol Morfa Nefyn

| Ein gwerthoedd | Ein hymddygiad |
|---|---|
| **Hapusrwydd a mwynhad** | Mae hapusrwydd yn bwysig iawn i ni yma yn ysgol Morfa ac rydym yn sicrhau fod bob plentyn a staff yn hapus yn dod i'r ysgol.<br>Mae ethos pob dosbarth a'r profiadau dysgu yn cael eu cynllunio yn ofalus iawn i ysbrydoli ein dysgwyr. Rydym yn sicrhau bod dysgwyr yn rhan o'r dysgu a gyda llais ymhob agwedd o'r ysgol fel eu bod yn teimlo perchnogaeth, yn mwynhau profiadau ac yn datblygu cymhelliant wrth ddysgu. |
| **Lles a Gofal** | Rydym yn dangos empathi, gofal a chonsyrn am les pawb. Rydym yn gwrando ac yn gweithredu i sicrhau fod pawb yn yr ysgol yn teimlo'n ddiogel ac yn cynllunio gweithgareddau sydd yn datblygu ymwybyddiaeth y dysgwyr am les eu hunain ac eraill. |
| **Hyder** | Drwy weithgareddau llafaredd a chwarae rôl, rydym yn blaenoriaethu hyder unigolion o'r cychwyn cyntaf er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus i fynegi eu hunain a'u teimladau. Mae hi'n bwysig fod bob plentyn yn falch o'i hunain ac yn cael eu canmol yn rheolaidd. |
| **Annibyniaeth** | Yn dilyn dysgu sgiliau amrywiol newydd i'r dysgwyr, rydym yn cynllunio gweithgareddau sydd yn rhoi cyfle iddynt atgyfnerthu y sgiliau hynny yn rheolaidd drwy brofiadau real er mwyn datblygu eu dealltwriaeth a'u hyder i ddefnyddio'r sgiliau yn annibynnol. Mae annog a datblygu annibyniaeth yn cael blaenoriaeth ymhob agwedd yn yr ysgol. |
| **Mentro** | Rydym yn cefnogi ein gilydd yn yr ysgol; yn ddysgwyr a staff, i ddatblygu meddylfryd o dwf. Mae defnyddio a thrafod yr eirfa meddylfryd o dwf sydd yn weledol ar yr ysgol 'dringo i'r sêr' yn ddyddiol yn sicrhau ein bod yn barod i fentro'n hyderus, i groesawu her ac i ddyfalbarhau i gyrraedd ein nod. |
| **Cefnogi a Chydweithio** | O fewn yr ysgol a'r dosbarthiadau, mae staff a dysgwyr yn cydweithio ac yn cefnogi ei gilydd i ddatblygu a dysgu'n barhaus. Mae hyn yn sicrhau fod bob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial. |
| **Cymuned a Chymreictod** | Rydym yn chwarae rhan llawn ym mywyd ein cymuned ac yn cynllunio i sicrhau fod y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth a pharch at eu cymyned, gan ddathlu a gwarchod eu cynefin. Rydym yn dathlu iaith a diwylliant Cymru ymhob rhan o'n gwaith. |

# Gwybodaeth gyffredinol

**Ble mae'r ysgol?**




**Cyfeiriad:**

Ysgol Morfa Nefyn,
Lôn yr Eglwys
Morfa Nefyn
Pwllheli
Gwynedd
LL53 6AR

**Rhif ffôn:** 01758 720 870
**Cyfeiriad e-bost**: nia.ferris@morfanefyn.ysgoliongwynedd.cymru

## Pennaeth:
Miss Nia Ferris

## Disgrifiad o'r ysgol:
Ysgol Gynradd Sirol (Babanod ac un blwyddyn Iau).
Mae'n ysgol ddyddiol, ddwyieithog, gydaddysgol.

## Trefn y dydd:

| | |
|---|---|
| Bore | 8.45 – 10.30 |
| | 10:30 – 10:40 (amser llefrith a ffrwythau) |
| | 10.40 – 11.00 (amser chwarae) |
| | 11.00 – 12.00 |
| Cinio | 12:00 – 1.00 |
| Prynhawn | 1.00 – 2.20 |
| | 2.20 - 2.30 (amser chwarae) |
| | 2.30 – 3.00 |

## Oriau Dysgu:

| | |
|---|---|
| Babanod – Cyfnod Sylfaen | 22.45 awr yr wythnos |
| Iau – Cyfnod allweddol 2 | 24 awr yr wythnos |

# Pwy 'di pwy?

Ceir yma restr o'r staff sy'n llunio ein tim cyfeillgar yn ysgol Morfa.

**Staff dysgu:**

| | |
|---|---|
| Miss Nia Ferris (Pennaeth) | Athrawes blynyddoedd Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1 |
| Mrs Medwen Pari | Athrawes blynyddoedd 2 a 3 |
| Miss Elen Owen | Cymhorthydd dosbarth |
| Miss Sioned E Jones | Cymhorthydd ADY |
| Miss Megan Haf Williams | Cymhorthydd ADY |
| Miss Elliw Evans | Cymhorthydd dosbarth |

**Y Corff Llywodraethu:**

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | Miss Nerys Wyn Jones |
| Is-gadeirydd | Mr Gareth Wright |
| Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg: | Mr Huw Griffith<br>Miss Nerys Wyn Jones |
| Cyfethol/ Cymunedol: | Mrs Sian Fôn Williams |
| Cynrhychiolwyr rhieni | Mrs Elin Williams<br>Mr Gareth Wright<br>Mrs Nia Lloyd Jones |
| Cynrhychiolwyr Cyngor Cymuned: | Miss Mared Llywelyn Williams |
| Cynrhychiolydd athrawon | Mrs Medwen Pari |
| Pennaeth | Miss Nia Ferris |
| Clerc y Llywodraethwyr | Mrs Nia Wyn Williams |

# Calendr ysgol 2022-23

**Tymhorau:**

| | |
|---|---|
| Tymor yr Hydref | 1 Medi 2022 - 23 Rhagfyr 2022 |
| Tymor y Gwanwyn | 9 Ionawr 2023 – 31 Mawrth 2023 |
| Tymor yr Haf | 17 Ebrill 2023 - 20 Gorffennaf 2023 |

Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Gwener, 2il o Fedi, 2022.

**Gwyliau:**

| | |
|---|---|
| 31 Hydref - 4 Tachwedd 2022 | Hanner tymor |
| 26 Rhagfyr 2022 - 6 Ionawr 2023 | Gwyliau'r Nadolig |
| 20 - 24 Chwefror 2023 | Hanner tymor |
| 3 - 14 Ebrill 2023 | Gwyliau'r Pasg |
| 1 Mai 2023 | Calan Mai |
| 29 Mai - 2 Mehefin 2023 | Hanner tymor |
| 21 Gorffennaf - 31 Awst 2023 | Gwyliau'r Haf |

Bydd yr ysgolion yn ail-agor ddydd Gwener, 1 Medi, 2023 i athrawon, a dydd Llun, 4 Medi i ddisgyblion (i'w gadarnhau).

Bydd diwrnodau ychwanegol o hyfforddiant mewn swydd i athrawon yn ystod y flwyddyn.

# Derbyniadau

**Pryd gaiff fy mhlentyn ddechrau yn y Dosbarth Meithrin ac addysg llawn amser?**

## Dosbarth Meithrin

Os bydd eich plentyn yn 3 i 4 oed rhwng 1af o Fedi a 31ain o Awst yn y flwyddyn academaidd ac y byddech yn hoffi manteisio ar Addysg Feithrin rhan-amser, dylech gysylltu â'r Pennaeth cyn gynted ag y bo modd. Cynhelir 5 sesiwn yn y prynhawn rhwng 1:00 a 3:00. Bydd athrawes neu gymhorthydd yn derbyn y plant am 1:00 ac yna yn eu cludo at giât yr ysgol am 3:00 o'r gloch y prynhawn.

## Addysg llawn amser

Derbynir plant i'r ysgol yn llawn amser yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed. Mae hysbysebion yn cael eu gosod fel arfer yn y wasg. Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw o fewn ardal dalgylch Ysgol Morfa. Mae'r Awdurdod lleol yn gyfrifol am ystyried ceisiadau o'r tu allan i'r dalgylch.

## Trosglwyddo ysgol

Pan fo'r plant yn 8 oed ar derfyn Blwyddyn 3, byddant yn trosglwyddo i Flwyddyn 4 yn Ysgol Nefyn. Byddwch yn derbyn Llawlyfr Gwybodaeth o Ysgol Nefyn yn ystod Tymor yr Haf. Bydd cyfle i'r plant ymweld â'r ysgol a threulio diwrnod yno.

## Y Cylch meithrin

Mae cyswllt clos ac effeithiol rhwng y Cylch Meithrin ac Ysgol Morfa Nefyn. Yn ogystal â chreu cymuned glos yn y pentref, mae hyn yn sicrhau fod plant yn trosglwyddo yn hyderus. Mae cyd-weithio clos rhwng arweinydd y cylch ac athrawes cyfnod sylfaen yr ysgol yn sicrhau fod addysg rhagorol yn cael ei gyflwyno.

## Cludo eich plentyn i'r ysgol

Cewch ollwng eich plentyn wrth brif fynedfa'r ysgol lle bydd aelod o staff yn bresennol i oruchwylio y plant o 8:35 y bore. Bydd rhieni yn dod at ddrws y dosbarthiadau i nôl eu plant am 3:00 y prynhawn.

Bydd cyfle i chi roi rhestr o oedolion fydd yn casglu eich plentyn o'r ysgol yn mis Medi. Rhyddheir plant yn unig i oedolion sydd wedi eu nodi ar y rhestr. Gofynnwn i chi anfon llythyr neu ffonio os yw unrhyw drefniadau cludo/ nôl eich plentyn yn wahanol i'r drefn arferol.

# Polisi iaith




Mae'n rhaid i bob ysgol yn yr AALL ddilyn polisi iaith Gwynedd. Mae Ysgol Morfa Nefyn yn ysgol cyfrwng Cymraeg ac yng nghategori 3 Llywodraeth Cymru wrth iddynt gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth iaith. Golyga hyn mai Cymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol. Rydym yn cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen.

Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Fel lleoliad trochi'r iaith, mae pob dysgwr yn cael ei addysgu'n llawn yn y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod y cyfnod trochi cynnar.

O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg. Adeiladir ar y sylfaeni a osodwyd, drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg. Bydd dysgwyr blwyddyn 2 yn cael eu cyflwyno i'r Saesneg yn ffurfiol yn y tymor olaf.

Ym mlwyddyn 3, bydd yr ysgol yn parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

Os bydd plentyn o gartref di-Gymraeg yn cyrraedd yr ysgol ym Mlwyddyn 3 bydd yn cael cyfle i fynychu yr uned iaith yn Llangybi am dymor er mwyn dysgu'r iaith.

# Y gymuned

Mae gan yr ysgol gyswllt glos iawn gyda'r gymuned. Bydd cyngherddau yn cael eu cynnal yn y Clwb Golff, yn Eglwys Santes Fair neu yn Ganolfan y pentref. Rydym yn darparu cyfleoedd i'r plant ddysgu yn eu hamgylchedd eu hunain, gan fanteisio ar leoliadau natur, orielau a busnesau lleol i atgyfnerthu'r dysgu. Rydym hefyd yn ymweld â Phlas Madryn yn rheolaidd i ganu i'r preswylwyr.

Amcanwn i baratoi disgyblion ar gyfer bywyd oedolion yn eu cymuned drwy feithrin ysbryd o gydweithredu a pharch tuag at ei gilydd a'r bobl o'u hamgylch.





# Clybiau'r ysgol

**Clwb gofal cyn-ysgol a chlwb brecwast**

Rydym yn cynnal 'Clwb gofal cyn-ysgol a chlwb brecwast bob bore. Mae'r clwb gofal cyn-ysgol rhwng 8:00 – 8:20yb (tâl o £1 y sesiwn) a'r clwb brecwast am ddim rhwng 8:20 – 8:35yb. Bydd angen bwcio sesiwn y clwb gofal neu'r clwb brecwast ar system taliadau ar-lein 'schoolgateway'. Bydd mwy o wybodaeth am sut i ddefnyddio'r system taliadau yn cael eu rhannu gyda rhieni o flaen llaw.

**Clwb amser Tê**

Yn ogystal, rydym yn cynnal 'Clwb amser Tê' yma yn yr ysgol bob prynhawn Mawrth. Cost y sesiwn yw £5.50 am ddwy awr; rhwng 3:00 – 5:00yp. Yn y clwb ar ôl ysgol, bydd cyfle iddynt gymeryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau tu mewn a thu allan gan gynnwys gweithgareddau celf a chrefft, coginio, TGCh, chwaraeon, teithiau natur a.y.y.b. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael iddynt.

**Clybiau allgyrsiol**

Bydd clybiau amrywiol eraill yn cael eu cynnal gan athrawon yr ysgol yn achlysurol drwy'r flwyddyn e.e clwb coginio, clwb cadw'n heini, clwb garddio, clwb cyfrifiadur a.y.y.b.





# Codi tâl am weithgareddau

Rydym yn awyddus iawn i drefnu gweithgareddau diddorol fydd yn cynnig profiadau amrywiol i'r plant. Ar adegau, byddwn yn gofyn i rieni am gyfraniad tuag at daith neu ymweliad arbennig.

Gofynir am gyfraniad o £2.20 y pen i dalu am fws i fynd â'r plant i nofio i'r Ganolfan Hamdden yn wythnosol. Ceisiwn ein gorau i gadw y costau yn rhesymol.

# Taliadau ar-lein

Gofynnwn i bob taliad gael ei wneud ar system taliadau ar-lein yr ysgol ar ddyddiau Llun.

| | |
|---|---|
| Cinio | 2.50 y dydd (£12.50 yr wythnos)<br>**Mae plant blwyddyn derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2 yn cael cinio ysgol am ddim.** |
| Ffrwyth | Rydym yn annog y plant i fwyta ffrwythau am gost o £1.00 yr wythnos. Mae'r plant yn cael dewis ffrwyth o'r siop ffrwythau yn ystod egwyl y bore. Plant blwyddyn 3 sydd yn gyrifol am y siop ffrwythau gan rannu ac archebu y ffrwythau. |
| Nofio | Mae'r ysgol yn trefnu 10 gwers nofio ac ymarfer corff bob tymor i'r disgyblion yn y Ganolfan Hamdden ym Mhwllheli. Mae'r ysgol yn talu am y sesiynau hyn ond gofynnir am gyfraniad tymhorol o £22 tuag at gostau bws i gludo'r plant i'r Ganolfan. |
| Llefrith | Mae plant dan bump oed a phlant Cyfnod Sylfaen yn cael llefrith am ddim. Os yw plant blwyddyn 3 yn dymuno, gallant brynu llefrith yn yr ysgol am bris rhesymol o 10c y dydd. Gofynnir am daliadau llefrith blwyddyn 3 fesul hanner tymor. |
| Poteli dŵr | Rydym yn annog y plant i yfed dŵr yn rheolaidd. Bydd bob plentyn yn derbyn potel ddŵr a ellir eu hail-ddefnyddio pan yn cychwyn ym mlwyddyn Derbyn. Mae modd prynu poteli ychwanegol am £1. Mae angen dod a'r botel i'r ysgol BOB DYDD a'i chludo adref i'w golchi. |

## Cinio ysgol

Cost gyfredol cinio ysgol yw £2.50 y dydd gyda'r taliadau yn cael eu gwneud ar y sytem daliadau ar-lein. Mae'r disgyblion i gyd yn bwyta cinio yn y Caban sydd ar dir yr ysgol am hanner dydd dan oruchwyliaeth oedolyn. Mae prydau am ddim ar gael i bob plentyn o deuluoedd sy'n derbyn Cynhaliaeth Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith. Mae'r ffurflen sydd ei hangen i hawlio'r hawliad hwn ar gael ar wefan yr ysgol. Noder bod yr holl ddata Cinio Ysgol yn cael ei gasglu gan yr AALL. Mae plant blwyddyn derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2 yn cael cinio ysgol am ddim.

# Gwisg ysgol

Polisi'r ysgol yw fod pob plentyn yn gwisgo gwisg ysgol pan yn mynychu'r ysgol neu pan yn mynychu digwyddiadau ble mae'r plentyn yn cynrychioli'r ysgol y tu allan i oriau arferol yr ysgol.

Seilir y polisi hwn ar y gred fod gwisg ysgol yn:

- hybu ymdeimlad o falchder o'n hysgol;
- creu ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned sydd yn perthyn i'r ysgol;
- ymarferol, taclus a thwt;
- gwneud i bod plentyn deimlo'n gyfartal o ran ymddangosiad;
- cael i'w ystyried fel dillad addas ar gyfer ysgol ac yn werth da am arian;

Mae'r polisi gwisg ysgol yn rhan greiddiol o ymroddiad yr ysgol tuag at cydraddoldeb a chynhwysiad. Mae Corff Llywodraethol yr ysgol yn credu fod gwisg ysgol yn galluogi i holl ddisgyblion yr ysgol rannu ymdeimlad o hunaniaeth gan ddathlu nodweddion sydd yn gyffredin i bawb, gan hefyd barchu amrywiaeth. Rydym yn dymuno gweld y dysgwyr â logo'r ysgol ar eu siwmper a chrys polo ond nid yw hyn yn orfodol.

Bydd yr ysgol yn trefnu cyfleon i rieni brynu dillad ysgol ail-law (sydd â logo'r ysgol arnynt) yn flynyddol yn y Ffair Haf. Bydd gan yr ysgol rai eitemau gwisg ysgol ar gael yn ystod y flwyddyn yn ogystal. Croeso i rieni gysylltu gyda'r Pennaeth i gael gweld y dewis sydd ar gael.

Rydym yn annog rhieni i ddod ag unrhyw eitem nad ydynt eu hangen bellach i'r ysgol fel y gallwn ei hail ddefnyddio.

Os ydych yn ansicr, yna dylech gysylltu a Swyddfa'r ysgol cyn prynu gwisg ysgol.



| Gwisg ysgol Morfa Nefyn |
|---|
| Polo gwyrdd |
| Siwmper neu gardigan - glas tywyll |
| Sgert neu drowsus glas tywyll |
| Yn yr Haf - Ffrog Haf glas a gwyn, sgert neu drowsus byr glas tywyll |

Bydd disgyblion blwyddyn Derbyn i flwyddyn 3 yn cael gwersi Addysg Gorfforol yn wythnosol. Mae gwisg a bag addysg gorfforol gyda logo ar gael i'w brynu drwy ddolen ar wefan yr ysgol ond nid yw'r wisg hon yn orfodol.

Gellir archebu'r wisg ysgol a gwisg Addysg Gorfforol trwy fynd ar wefan yr ysgol www.ysgolmorfa.org - gweler linc yno yn adran 'rhieni'.



# Cyswllt Cartref ac ysgol

Mae'r ysgol hon yn credu bod partneriaeth hapus ac agored rhwng y cartref a'r ysgol yn holl bwysig. Rydym yn gwerthfawrogi cefnogaeth a chydweithrediad rhieni yn fawr iawn. Gwahoddir rhieni i gymryd diddordeb bywiog yn addysg eu plant ac i feithrin cysylltiad iach rhwng yr ysgol a'r cartref.

## Cytundeb Cartref ac ysgol

Mae gan yr ysgol gytundeb Cartref ac Ysgol i geisio sicrhau bod y disgyblion, rhieni ac athrawon yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae'r gytundeb yn cael ei rhannu a'i harwyddo pan mae'r plentyn yn cychwyn yn yr ysgol.

## Cyfarfodydd rhieni

Gwahoddir rhieni i'r ysgol dair gwaith yn ystod y flwyddyn addysgol. Yn nhymor yr Hydref a thymor yr Haf trefnir apwyntiadau i rieni gyfarfod a'r athrawon i drafod cyrrhaeddiad a thargedau eu plentyn. Yn y cyfarfodydd rhieni bydd athrawon yn rhannu a thrafod canlyniadau unrhyw brofion safonedig a gynhaliwyd.
Gwahoddir rhieni i fore neu brynhawn agored yn ystod y flwyddyn yn ogystal ble bydd cyfle iddynt wylio'u plentyn yn amgylchedd y dosbarth a gweld eu gwaith.

## Darllen a gwaith cartref

Credwn ei bod yn hanfodol i'r plant gael cyfleoedd i ddysgu gartref yn rheolaidd gyda'u rhieni. Bydd yr athrawes ddosbarth yn dewis llyfr i blant Blwyddyn 0 a Blwyddyn 1, dwy waith yr wythnos a bydd plant Blwyddyn 2 a 3 yn dewis llyfr addas dan oruchwyliaeth yr athrawes ac yn ei ddarllen gartref yn rheolaidd bob nos.

Gofynnir am gydweithrediad y rhieni i gymryd diddordeb yn y llyfrau a'u darllen efo'r plant. Os yw eich plentyn ym mlwyddyn Derbyn neu 1, gofynnir i chi fel rhiant gofnodi sylwadau syml am ddarllen eich plentyn. Gofynnir i blant Blwyddyn 2 a 3 gofnodi eu hunain. Ambell waith bydd yr athrawon yn gofyn i blentyn wneud gwaith ychwanegol adref e.e. dysgu sillafu neu ddysgu tablau.

## Dysgu cyfunol

Bydd yr athrawon yn gosod tasgau dysgu cyfunol ar adegau sef tasgau i'w gwneud adref gyda rhieni fydd yn atgyfnerthu'r hyn sydd wedi ei wneud yn yr ysgol. Mae'r tasgau hyn yn cael eu gosod yn ddigidol ac yn ffordd arbennig i rieni fod yn ymwybodol o gyrhaeddiad, targedau a llwyddiannau eu plentyn. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd o app o'r enw seesaw, purplemash a google classroom ar gyfer y tasgau dysgu cyfunol. Bydd canllawiau manwl yn cael eu rhannu gyda rhieni ar gychwyn y flwyddyn. Gobeithir y bydd y cartref yn cydweithredu'n llawn ac yn annog y plentyn i gyflawni'r gwaith hyd eithaf eu gallu.

Mae app seesaw yn cael ei ddefnyddio yn yr un modd i rannu lluniau o weithgareddau'r dosbarth gyda rhieni yn rheolaidd, er mwyn sicrhau cyswllt effeithiol rhwng y cartref a'r ysgol.

# Cymdeithas rieni

Mae gan yr ysgol Gymdeithas rieni llewyrchus sydd yn trefnu nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn er mwyn cyfrannu tuag at gostau tripiau, bysus ac adnoddau'r ysgol. Trefnir nosweithiau amrywiol fel Ffair Haf/ Nadolig, teithiau cerdded, Ocsiwn Addewidion, Bingo a nosweithiau Cymdeithasol. Mae codi arian drwy weithgareddau amrywiol yn cyfoethogi'r adnoddau a'r profiadau a dderbynnir y disgyblion.

## Cyfarfodydd

Mae'r Gymdeithas rieni yn cyfarfod yn dymhorol i drafod materion addysgol, diwylliannol neu gymdeithasol ac mae croeso i bob rhiant fynychu i gefnogi neu rannu unrhyw syniadau newydd. Cynhelir y cyfarfod cyntaf yn fuan yn nhymor yr Hydref gan fod y cyfarfod hwn yn gyfle i rieni newydd ddod i adnabod yr ysgol a chymdeithasu gyda'i gilydd.

Rydym yn hynod o ddiolchgar o ymdrechion ein Cymdeithas rieni a gwerthfawrogwn gefnogaeth bob rhiant wrth drefnu'r gweithgareddau amrywiol i godi arian.





Y swyddogion cyfredol yw:

| | |
|---|---|
| Cadeiryddes | Miss Angharad Jones |
| Trysoryddes | Mrs Tesni Jones |
| Ysgrifenyddes | Mrs Nia Lloyd Jones |

# Cyngor ysgol

Dyma Gyngor ysgol 2022-23:



Mae'r cyngor ysgol yn bodoli i sicrhau bod y disgyblion yn gallu lleisio pryderon neu syniadau'n swyddogol. Mae'r Cyngor yn cynnwys plant hynaf yr ysgol sydd ym mlwyddyn 3. Mae cynghorwyr ysgol yn cyfarfod o leiaf unwaith y tymor i drafod materion pwysig iddynt hwy eu hunain a'u cymheiriaid. Mae eu barn yn bwysig iawn a maent yn cael eu cynnwys ym mhrosesau hunanarfarnu'r ysgol drwy graffu ar lyfrau ac ateb holiaduron yn rheolaidd.

Mae gwelliannau'r gorffennol a wnaed yn dilyn ymyriad y cyngor ysgol, yn cynnwys cyflwyno siop ffrwythau, safle beiciau, ffrâm ddringo yn ogystal â gofyn am glybiau amrywiol e.e. clwb coginio. Yn ogystal byddant yn trefnu gweithgareddau tymhorol gan gynnwys wythnos gerdded i'r ysgol, gweithgareddau i gasglu arian at elusennau amrywiol a hybu camau gweithredu siarter iaith.





# Presenoldeb

**Mae pob diwrnod yn cyfri!**

Mae gan yr ysgol ddyletswydd i sicrhau bod y disgyblion yn mynychu'n rheolaidd. Os nad yw plentyn yn bresennol ar gyfer sesiwn, cânt eu marcio'n absennol. Disgwylir i rieni gysylltu â'r ysgol cyn gynted ag y bo modd fel y gellir rhoi cyfrif am absenoldeb. Rhoddwn bwyslais mawr ar gael eglurhad am bob absenoldeb. Byddwn yn annog i rieni wneud apwyntiad meddyg/dentist allan o oriau ysgol.

Yn unol â rheolau'r Cynulliad Cenedlaethol mae'n rhaid i bob ysgol ddosbarthu absenoldebau mewn un o ddwy ffordd: awdurdodedig neu anawdurdodedig.

| | |
|---|---|
| Absenoldeb Awdurodedig | absenoldeb ble y ceir caniatad ar ei gyfer gan y rhieni a'r ysgol e.e plentyn wedi bod yn sal, rhieni wedi anfon llythyr o eglurhad i'r ysgol. |
| Absenoldeb Heb Awdurdod | absenoldeb ble nad yw'r ysgol wedi derbyn eglurhad boddhaol am yr absenoldeb. |

Mae modd hefyd gofyn am hyd at ddeng niwrnod o wyliau mewn un blwyddyn ysgol. Mae'r Pennaeth yn ystyried y ceisiadau hyn ar sail unigol. Rydym yn annog rhieni'n gryf i beidio a thynnu eu plant allan yn ystod y flwyddyn ysgol i sicrhau dysgu effeithlon.

Mae gwybodaeth am bresenoldeb yr ysgol yn cael ei chadw'n electronig gan yr AALL. Gofynnir i Swyddogion Lles Addysg ymweld â chartrefi rhieni yr ystyrir bod ffigurau presenoldeb eu plentyn yn bryder i'r ysgol a'r AALl.

# Ethos ac ymddygiad

Yn ysgol Morfa credwn fod safon uchel o ymddygiad ac ethos cadarnhaol yn holl-bwysig ar gyfer dysgu o ansawdd. Mae'r ysgol yn hybu safon uchel o ymddygiad drwy ddilyn strategaethau cynllun Webster-Stratton, sydd yn canolbwyntio ar ganmol ymddygiad da ac atgoffa'r plant yn rheolaidd o reolau'r ysgol.

Mae ein hystafelloedd dosbarth yn lleoedd prysur ac atyniadol. Mae'r plant yn mwynhau dysgu, yn gweithio'n galed ac yn ymddwyn yn dda. Rydym yn credu mewn amddiffyn hawliau dysgu a diogelwch bob un o'r disgyblion ac oherwydd hynny yn dilyn camau pendant os nad yw plentyn yn dilyn y rheolau neu os ydynt yn ymddwyn mewn ffordd sydd yn amharu ar eraill. Mae copi o'r polisi ymddygiad llawn ar gael yn yr ysgol ac ar wefan yr ysgol.

Hoffwn bwysleisio, ein bod yn hynod o falch o ymddygiad rhagorol y disgyblion ac yn falch iawn o sut mae'r ysgol wedi datblygu awyrgylch glos ble mae pawb yn parchu ei gilydd.

# Damweiniau a meddyginiaeth

Byddwn yn gofalu a chysuro unrhyw blentyn sy'n mynd yn sâl yn yr ysgol neu'n cael damwain. Os bydd yr athrawon dosbarth a'r cymorthyddion cyntaf yn ei ystyried yn angenrheidiol, byddwn yn cysylltu â chi ac yn gofyn i chi ddod i gasglu eich plentyn. Oherwydd hyn, mae'n hanfodol bod yr ysgol yn cael ei hysbysu pe bai eich manylion cyswllt yn newid.

Cedwir cofnodion damweiniau mewn ffeil, ac anfonir slip damwain adref i esbonio'r hyn sydd wedi digwydd. Mewn achos brys lle na ellir dod i gysylltiad â rhiant bydd y Pennaeth yn gweithredu'n ôl yr angen.

Pan mae eich plentyn yn cychwyn yn yr ysgol, bydd taflenni yn cael eu rhannu gyda rhieni yn gofyn am wybodaeth meddygol neu unrhyw alergeddau. Mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i'r ysgol os oes problem feddygol a allai effeithio eich plentyn tra bydd yn yr ysgol. e.e. asthma, alergedd, epilepsi.

Pe bai eich plentyn angen moddion yn ystod y diwrnod ysgol, cysylltwch â'r ysgol i wneud trefniadau.

# Trefniadau iechyd a diogelwch

Mae iechyd a diogelwch disgyblion, staff ac ymwelwyr yn flaenoriaeth i'r ysgol. Dilynir argymhellion polisi Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod Addysg Lleol. Mae asesiadau o risgiau uchel a chanolig wedi eu paratoi i sicrhau fod gweithgareddau'r ysgol mor ddiogel â phosibl. Mae ymweliadau neu weithgaredd tu allan i'r ysgol yn cael eu cynllunio yn ofalus i osgoi damwain a lleihau risg.

Mewn argyfwng ble bod angen i'r Pennaeth gau'r ysgol, gwneir unrhyw benderfyniad i gau ysgol i sicrhau lles a diogelwch disgyblion. Ni ryddheir unrhyw ddisgybl oni fo lle diogel iddo/iddi fynd. Rydym yn cynnal ymarfer tân ar y safle bob tymor i sicrhau ein bod yn gallu gwagio'r adeilad yn gyflym mewn sefyllfa o argyfwng. Petai plentyn angen mynd i'r ysbyty bydd aelod o staff yn mynd gydag ef/hi os na fydd y rhieni wedi cyrraedd ar y safle.

# Chwaraeon a gweithgareddau corfforol

Byddwn yn cael gwersi nofio, gymnasteg neu ddawns a gemau yn y Ganolfan Hamdden ym Mhwllheli am ddeg wythnos o bob tymor.

Rydym yn cynnig clwb ffitrwydd sydd yn cael ei gynnal ar ôl ysgol yn ystod tymor yr Haf i blant blwyddyn Derbyn i flwyddyn 3. Bydd y disgyblion yn cymeryd rhan yn ogystal yn nghlwb dal i fynd yr ysgol ble maent yn rhedeg milltir yn wythnosol o gwmpas cae yr ysgol.

Bydd disgyblion 2 a 3 yn cael cyfle i gystadlu yng ngala nofio Ysgolion y Dalgylch yn flynyddol a blwyddyn 3 yn cael ymuno gyda phlant y dalgylch mewn cystadlaethau tymhorol pêl droed, rygbi, hoci ac athletau.

### Amser Chwarae

Mae pob disgybl yn cael egwyl o'i gwersi am 10:40 y bore. Mae'r plant yn chwarae ar y buarth neu gae yr ysgol, yn ddibynnol ar y tywydd. Maent yn cymysgu gyda'u cyfeillion gan annog chwarae cadarnhaol a rhannu adnoddau. Anogir plant i fod yn gorfforol weithgar yn ystod amser chwarae trwy eu hannog i ymwneud â gemau buarth traddodiadol ac ymdrin ag offer chwarae amrywiol. Bydd y plant Meithrin i Blwyddyn 2 yn cael sesiwn deng munud yn ychwanegol yn y prynhawn.

# Ysgol iach

Mae Ysgol Morfa Nefyn yn Ysgol Iach! Golyga hyn ein bod yn rhan o Gynllun ysgolion iach Gwynedd. Mae'r ysgol wedi derbyn gwobr uchaf y cynllun sef y wobr ansawdd Genedlaethol. Nôd y fenter yw annog ysgolion i fod yn weithredol o ran hyrwyddo iechyd a lles disgyblion, athrawon a'r gymuned ehangach drwy ddatblygu amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd.

Gwneir hynny drwy'r canlynol:

- Cwricwlwm yr ysgol a gweithgareddau ymarferol y Cyfnod Sylfaen
- Ethos yr ysgol a gweithgareddau o ddydd i ddydd
- Cysylltiadau a geir eisoes gyda rhieni, y gymuned ac asiantaethau arbenigol

# Ysgol werdd

Mae'r ysgol yn falch o fod yn rhan o'r cynllun 'Gweithredu Ysgolion Gwyrdd' ac wedi llwyddo i ennill y wobr Aur. Rydym yn annog disgyblion i gymryd rhan mewn materion amgylcheddol o ddydd i ddydd a deall pwysigrwydd gofalu am ein hamgylchedd drwy leihau gwastraff a llygredd ac arbed ynni.

# Anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad

Yn Ysgol Morfa Nefyn, mae pob plentyn yn cael ei werthfawrogi fel unigolyn ac ymdrinnir â'i anghenion yn sensitif ac yn effeithiol. Credwn fod pob plentyn yn derbyn cwricwlwm eang, cytbwys a gwahaniaethol gan sicrhau bod hunan-barch a hyder yn cael eu cyfoethogi a bod agwedd gadarnhaol yn cael ei datblygu.

Mae Ysgol Morfa Nefyn wedi ymrwymo i gynhwysiad llwyddiannus disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Yn ein hysgol, mae pob athro yn athro ar bob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY.

Yn yr ysgol, mae pob plentyn yn gyfartal, yn cael ei werthfawrogi ac yn unigryw. Ein nod yw darparu amgylchedd lle mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu ffynnu. Byddwn yn ymateb i unigolion mewn ffyrdd sy'n cymryd eu profiadau bywyd amrywiol a'u hanghenion penodol i ystyriaeth.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu addysg sy'n galluogi pob disgybl i wneud cynnydd fel ei fod yn cyflawni hyd eithaf ei allu, yn dod yn unigolion hyderus sy'n byw bywyd llawn ac yn pontio'n llwyddiannus i fyd oedolion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i adnabod anghenion addysgol pob disgybl yn gynnar er mwyn ymateb i'r anghenion hynny. Bydd pob plentyn yn ymuno a holl weithgareddau'r ysgol, ac yn cael sylw unigol fel bo'r angen. Byddant yn cael gwaith unigol ac yn cael cyfle i gydweithio â phlant eraill.

Byddwn yn hybu cydweithrediad clos gyda rhieni ac unrhyw Asiantaethau allanol yn ôl y galw. Cynllunir Cynllun Addysg Unigol ar gyfer y plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a byddwn yn eu hadolygu yn rheolaidd. Byddwn bob amser yn sensitif i ofynion y plant ac yn barod i ganmol y llwyddiannau er mwyn codi hunan-hyder a hunan-barch y plentyn.

Mae copi o'r Polisi ADYaCh yn yr ysgol i unrhyw un a ddymunai ei ddarllen.

**Plant MATh**

Bydd yr ysgol yn hyrwyddo ac ymestyn talentau plant yr hystyrir i fod yn abl a thalentog mewn maes arbennig. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy gwricwlwm arferol yr ysgol a/neu drwy hwyluso cyfle i'r plant yma ddatblygu'r dalent. Trafodir y ddarpariaeth arbennig i'r plant yma yn ystod nosweithiau rhieni.

# Cydraddoldeb

Mae Ysgol Morfa yn hybu cydraddoldeb ym mhob agwedd o waith yr ysgol gan gynnig mynediad llawn i'r Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm i bob plentyn heb wahaniaethu o ran iaith, rhyw, oed, crêd, gallu na chenedl neu gefndir y plentyn.

Mae gan yr ysgol bolisi a Chynllun Cydraddoldeb Strategol a gwneir pob ymdrechu i sicrhau bod hwn yn cael ei weithredu yn deg ac yn briodol i bawb sydd yn mynychu yr ysgol.
Rydym yn ymwybodol o'n cyfrifoldeb i wneud addasiadau rhesymol i gynorthwyo cydranddalwyr anabl, a thrwy ein Cynllun Cydraddoldeb Anabl rydym yn annog mewnbwn i'r gymuned ysgol gyfan.

# Plant mewn Gofal

Mae gan pob plentyn yng ngofal yr awdurdod leol yr hawl i gael mynediad i addysg cyn ysgol a holl wasanaethau addysg a derbyn pob cyfle a chymorth i ddatblygu'n addysgol ac yn gymdeithasol. Bydd Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd yn unol â'i dyletswydd statudol yn cynghori a chynorthwyo ysgolion i ddiogelu ac hyrwyddo lles plentyn sy'n derbyn gofal ac yn arbennig hyrwyddo cyflawniad addysgol y plentyn. Y Pennaeth yw'r person sy'n gyfrifol am hyrwyddo cyflawniad plant sy'n derbyn gofal mewn addysg.

# Perfformiad yr ysgol

**Canlyniad adroddiad ESTYN diweddaraf yr ysgol, Medi 2015:**

| | |
|---|---|
| Perfformiad presennol | **Rhagorol** |
| Rhagolygon gwella | **Rhagorol** |
| Pa mor dda yw'r deilliannau? | **Rhagorol** |
| Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | **Rhagorol** |
| Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a rheolaeth? | **Rhagorol** |

Gweler linc i'r adroddiad llawn ar wefan yr ysgol.

# Diogelu plant

Dylai rhieni/gofalwyr fod yn ymwybodol bod gan ysgolion gyfrifoldeb i sicrhau lles yr holl ddisgyblion. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn golygu:

- y bydd gan yr ysgol bolisi gweithdrefnau amddiffyn plant
- y dylai'r ysgol ofalu fod rhieni neu ofalwyr yn ymwybodol o'i pholisi amddiffyn plant.
- y bydd efallai angen cyfeirio eu plentyn at yr asiantaethau lles plant statudol os ydynt yn credu bod y plentyn mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol;
- y dylai'r ysgol geisio gweithio gyda rhieni/gofalwyr ynghylch lles eu plentyn ac aros yn ddiduedd os yw eu plentyn yn cael ei cyfeirio;
- y dylai'r ysgol helpu rhieni neu ofalwyr i ddeall os cyfeirir y plant i'r gwasanaethau cymdeithasol neu i'r heddlu, yna gwneir hynny er lles gorau'r plentyn ac adrodd i'r heddlu o ran lles a chynnydd addysgol eu plentyn
- y bydd yr ysgol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni / gofalwyr yn gyson ynghylch lles a chynnydd addysgol y plentyn.

Os ydych yn poeni am eich gallu eich hun i ymdopi, poeni am ddiogelwch eich plentyn neu blentyn arall gadewch i'r ysgol wybod ar unwaith.

| | |
|---|---|
| **Person Dynodedig Amddiffyn Plant** | Miss Nia Ferris |
| **Y Llywodraethwyr Dynodedig** | Mrs Sian Fon Williams<br>Miss Karen Vaughan Jones |
| **Swyddog Dynodedig Adran Addysg Gwynedd** | Bethan Helen Jones: 07977504344 |
| **Tim Gwasanaethau Plant Cymdeithasol Pwllheli** | (01758) 704455 |

***os oes cwyn yn erbyn y pennaeth dylid cysylltu a'r Swyddog Adran Addysg neu'r Llywodraethwyr Dynodedig.***

**Trefniadau pellach i sicrhau diogelwch disgyblion:**

- Gofalwn fod DBS cyfredol gan bob aelod o staff, llywodraethwyr ac ymwelwyr cyson.
- Holl staff yn ymwybodol o'r polisi ac wedi cwblhau hyfforddiant Amddiffyn Plant.
- Pob ymwelydd yr ysgol yn cael eu goruchwylio 100%.
- Mae un prif fynedfa yn yr ysgol a phob ymwelydd, heblaw rhieni, yn arwyddo i mewn a gwisgo bathodyn adnabod amlwg.
- Mae cymhareb goruchwylio addas yn ystod amser chwarae a chinio.
- Mae cofnod yn cael ei gadw o gonsyrn am blant.
- Y person dynodedig amddiffyn plant yn cyfeirio achos i'r Gwasanaeth Cymdeithasol os oes amheuaeth.
- Staff addysgu wedi hyfforddi a pholisi 'Defnyddio Grym Rhesymol'.

Mwy o wybodaeth gan gynnwys copi llawn o'r arweiniad, Y Polisi Diogelu a gwybodaeth am gadw'n saff i blant ar wefan yr ysgol. www.morfanefyn.gwynedd.sch.uk

# Diogelu data

## Gwybodaeth bersonol am ddisgyblion yr ydym yn eu casglu a'u defnyddio:

- Gwybodaeth a chysylltiadau personol i adnabod disgyblion (enw, rhyw, dyddiad geni, cyfeiriad, rhif unigryw disgyblion (UPN), cyfeiriad e-bost, manylion cyswllt mewn argyfwng)
- Nodweddion (ethnigrwydd, cenedligrwydd, iaith y cartref, cymhwysedd prydau ysgol am ddim)
- Taliadau cinio a patrwm prydau y plentyn
- Gwybodaeth diogelu (gorchmynion llys, cyfranogiad personol ac adroddiadau y gwasanaethau cymdeithasol ac amddiffyn plant, gwybodaeth gefndir berthnasol am y teulu)
- Anghenion addysgol arbennig (anghenion a safle yn cynnwys gwybodaeth 'Mwy abl a thalentog')
- Presenoldeb (nifer y sesiynau a fynychwyd, nifer yr absenoldebau a rhesymau dros absenoldeb)
- Meddygol a gweinyddiaeth (gwybodaeth am feddyg, alergeddau, meddyginiaeth a gofynion dietegol)
- Asesiad a chyrhaeddiad (canlyniadau profion statudol ac anstatudol, hanes addysgol, lefelau cyflawniad disgwyliedig, adroddiadau tymhorol a blynyddol)
- Gwybodaeth am ymddygiad (gwaharddiadau ac unrhyw ddarpariaethau sydd wedi'u rhoi yn eu lle)
- Amserlen a'r dosbarthiadau a fynychir (yn cynnwys gwersi offerynnau cerdd)
- Lluniau (yn cynnwys delweddau teledu cylch cyfyng TCC)
- Caniatâd ar gyfer teithiau ysgol a lluniau a gyhoeddir (yn cynnwys enw'r sawl a roddodd y caniatâd a'r dyddiad)
- Manylion y sawl y caniateir iddo / iddi gasglu disgybl o'r ysgol

## Rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am ddisgyblion am y dibenion a ganlyn:

- I gefnogi addysg y disgybl
- I fonitro ac adrodd ar gynnydd cyrhaeddiad y disgybl
- I ddarparu gofal bugeiliol priodol
- I asesu ansawdd ein gwasanaethau
- I gadw plant yn ddiogel (alergeddau bwyd, manylion cyswllt mewn argyfwng, delweddau TCC)
- I fodloni gofynion statudol ar gyfer defnydd gyda chasgliadau data, archwiliadau statudol a dibenion archwilio

Mae copi llawn o ddatganiad preifatrwydd yr ysgol ar gael ar wefan yr ysgol.

# Cwynion

Mae'r Ysgol wedi ymrwymo i ymdrin â chwynion yn effeithiol. Rydym yn anelu at egluro unrhyw faterion nad ydych yn siŵr yn eu cylch. Os oes modd, byddwn yn cywiro unrhyw gamgymeriadau yr ydym wedi'u gwneud a byddwn yn ymddiheuro. Rydym yn anelu at ddysgu oddi wrth gamgymeriadau a defnyddio'r profiad hwnnw i wella'r hyn a wnawn.

Ein diffiniad o gŵyn yw 'mynegiant o anfodlonrwydd mewn perthynas â'r ysgol neu aelod o'i staff sy'n gofyn am ymateb gan yr ysgol'.

Mae ganddom weithdrefn gwyno sydd yn sicrhau bod unrhyw un sydd â buddiant yn yr ysgol yn gallu mynegi pryder a bod yn hyderus y bydd yn cael ei ystyried yn llawn ac, os credir bod sail i'ch pryderon, y bydd y mater yn cael ei drin yn briodol ac yn ddi-oed.

Gellir dod o hyd i'r polisi delio gyda chwynion ar wefan yr ysgol.

# Y Cwricwlwm

**Mae dolenni i'ch cyfeirio at fwy o wybodaeth am y Cwricwlwm Newydd ar gael ar wefan yr ysgol.**

Mae Cwricwlwm Newydd wedi ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru ers medi 2022. Yma yn ysgol Morfa, rydym yn cynllunio cwricwlwm fydd yn helpu eich plentyn i fod yn:

1. ddysgwr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
2. gyfrannwr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
3. ddinesydd egwyddorol, gwybodus, sy'n barod i chwarae rhan yng Nghymru a'r byd,
4. unigolyn iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywyd bywyd cyflawn fel aelod gwerthfawr o gymdeithas

Gelwir rhain yn 'bedwar diben' y cwricwlwm.

## Cynllunio

Mae Cwricwlwm i Gymru yn rhoi rhyddid i ni gynllunio ein cynnwys ein hunain yn seiliedig ar:

- 6 Maes Dysgu a Phrofiad a'u Datganiadau o'r Hyn sy'n bwysig
- Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd
- 5 o Themâu Trawsbynciol

| **Y 6 Maes Dysgu a Phrofiad** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Celfyddydau Mynegiannol** | **Iechyd a Lles** | **Dyniaethau** | **Mathemateg a Rhifedd** | **Ieithoedd, Llythrennedd & Chyfathrebu** | **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** |
| Celf<br>Cerddoriaeth<br>Dawns<br>Drama<br>Ffilm a Chyfryngau Digidol | Iechyd a datblygiad y corff<br><br>Iechyd meddwl<br><br>Lles emosiynol a chymdeithasol | Daearyddiaeth<br>Hanes<br>Crefydd<br>Gwerthoedd a Moeseg<br><br>Hefyd elfennau o: Astudiaethau Busnes, Astudiaethau Cymdeithasol, Economeg, Athroniaeth | Yn cynnwys 5 hyfedr rhyngddibynol:<br><br>1.Dealltwriaeth gysyniadol<br>2.Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau<br>3.Rhuglder<br>4.Rhesymu rhesymegol<br>5.Cymhwysedd strategol | Cymraeg<br>Saesneg<br>Llenyddiaeth | Gwyddoniaeth, Dylunio a Thechnoleg |

| **Sgiliau Trawsgwricwlaidd**<br>Byddwn yn cynllunio ar gyfer datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd isod oddi fewn ac ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad gan wneud defnydd o'r fframweithiau diwygiedig cenedlaethol ar eu cyfer | | |
|---|---|---|
| Llythrennedd | Rhifedd | Cymhwysedd Digidol |

| **Themâu Trawsbynciol**<br>*Byddwn yn cynnwys ac yn ymestyn y themâu isod ar draws y cwricwlwm* | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addysg cydberthynas a rhywioldeb | Addysg Hawliau dynol | Amrywiaeth | Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith | Cyd- destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol |

# Cynllunio

Wrth gynllunio yn Ysgol Morfa, rhoddir pwyslais ar gynnig profiadau dysgu cyfoethog, eang a dwfn o ansawdd uchel i'n dysgwyr sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u datblygiad.

Golyga hyn roi digon o amser i ddysgwyr feithrin, ymarfer a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau er mwyn gwreiddio eu dysgu. Drwy gynllunio themâu trawsgwricwlaidd, rydym yn sicrhau fod y dysgwyr yn atgyfnerthu'r sgiliau ar draws y cwricwlwm yn hyderus. Mae ein cynlluniau yn gwahaniaethu i roi cyfle i bob unigolyn ddysgu sgiliau newydd, llwyddo a dyfalbarhau er mwyn mynd am her. Rydym yn datblygu agwedd iach i sicrhau fod bob dysgwr yn mwynhau ac yn teimlo'n falch o'i hunain.

Rydym hefyd yn cynllunio i sicrhau bod ein profiadau dysgu a'n haddysgu yn datblygu'r **sgiliau cyfannol isod** sydd eu hangen ar ein dysgwyr i gyflawni'r 4 diben. Mae hyn yn gosod seiliau cadarn ar gyfer camau nesaf eu dysgu ac yn sicrhau unigolion hyderus, brwdfrydig sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

| | |
|---|---|
| **Creadigrwydd ac arloesi** | • Ymholi, archwilio, bod yn chwilfrydig, creu a rhannu syniadau<br>• Cysylltu profiadau, gwybodaeth a sgiliau |
| **Meddwl yn feirniadol a datrys problemau** | • Cwestiynu a gwerthuso gwybodaeth a sefyllfaoedd<br>• Adnabod problemau a chynnig gwahanol ddatrysiadau<br>• Gwneud penderfyniadau yn wrthrychol |
| **Effeithiolrwydd personol** | • Datblygu deallusrwydd emosiynol, hyder ac annibyniaeth<br>• Gwerthuso a thrafod eu dysgu presennol a'u camau nesaf<br>• Gweld gwerth a dathlu camgymeriadau<br>• Trafod ac ystyried eu barn a'u gwerthoedd a'u goblygiadau egwyddorol, cymdeithasol, diwylliannol |
| **Cynllunio a threfnu** | • Gosod nodau ar gyfer eu dysgu a thrafod a myfyrio ar eu cynnydd |

### Cynllunio i ddysgu sgiliau

Defnyddir cyfuniad o ddulliau o gynllunio'r cwricwlwm yn yr ysgol hon yn unol â'r gofyn yn unol ag oedran y dysgwyr a chyd destun y dysgu. Bydd elfennau o gynllunio ar gyfer addysgu uniongyrchol (mathemateg a llythrennedd), disgyblaethol ac amlddisgyblaethol yn digwydd er mwyn dysgu ac ymarfer sgiliau penodol *e.e. dysgu sgil mathemateg neu ffoneg benodol.*

### Cynllunio thema i ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd

Defnyddir elfennau rhyngddisgyblaethol ac integredig er mwyn ymarfer sgiliau ymhellach a'u cymhwyso mewn gwahanol gyd- destunau trawsgwricwlaidd o fewn thema penodol E*.e. tynnu elfennau o Fathemateg, Iaith, Cymhwysedd Digidol a Dyniaethau at ei gilydd o fewn thema trawsgwricwlaidd.* Mae llais y plentyn, eu teuluoedd a'r gymuned yn bwysig i ni ac oherwydd hyn, mae hyblygrwydd yn ein cynllunio i ddilyn trywydd y dysgwyr neu os oes digwyddiad lleol neu Fyd eang yn codi. Mae hyn yn sicrhau fod ein profiadau dysgu yn berthnasol, diddorol ac amserol yn ogystal a chodi cymhelliant a mwynhad y dysgwyr.

### Mae'r isod yn elfennau holl bwysig y byddwn yn ymgorffori'n barhaus yn ein cynlluniau:

- Iechyd a Lles
- Llais y plentyn a'u teuluoedd
- Sgiliau Cymhwysedd digidol
- Gweithgareddau difyr symbylus
- Dysgu yn yr awyr agored

## Elfennau gorfodol y Cwricwlwm

Yma yn ysgol Morfa Nefyn rydym yn rhoi sylw rheolaidd i elfennau gorfodol y cwricwlwm wrth gynllunio:

| | |
|---|---|
| **Addysg Cydberthynas a rhywioldeb** | Rydym yn cynllunio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb er mwyn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd i ddeall sut mae cydberthnasau a rhywioldeb yn llywio eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill. Caiff dysgwyr eu paratoi a'u grymuso i ofyn am gymorth ar faterion sy'n ymwneud ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac i eirioli drostyn nhw eu hunain. |
| **Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg** | Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan statudol o Gwricwlwm y Dyniaethau ac yn seiliedig ar gyfres o gydsyniadau a syniadau mawr. Mae ein cwricwlwm yn darparu ystod o ddulliau disgybliaethol i gefnogi dysgwyr wrth iddynt fynd i'r afael yn feirniadol ag ystod eang o gredoau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol. Dyluniwyd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ein hysgol i roi sylw i'r maes llafur cytunedig. |
| **Cymraeg** | Cyflwynir addysg yn yr ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae disgyblion yn cael eu trochi yn yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn y blynyddoedd cynnar. |
| **Saesneg** | Addysgir Saesneg ym mlwyddyn 3, pan mae'r disgyblion yn 7 oed ac wedi derbyn Sylfaen gadarn yn y Gymraeg. |







# Asesu a chynnydd


Mae Cwricwlwm i Gymru yn rhoi'r cyfle i ni sicrhau mai cynnydd dysgwyr yw prif bwrpas Asesu ac nid ymarfer atebolrwydd. I'r perwyl hyn, rydym ni yn Ysgol Morfa Nefyn yn rhoi bri ar ddatblygu darlun cyflawn o ddatblygiad pob dysgwr, yn cynnwys eu lles, eu parodrwydd ac awydd i ddysgu yn ogystal â datblygiad eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Rhown bwyslais ar bwysigrwydd sicrhau cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ar draws ymarferwyr yr ysgol a'r clwstwr ac ar drafodaethau rheolaidd gyda rheini a gofalwyr i drafod cynnydd eu plant.

**Bydd yr ysgol yn cyflawni Dibenion Asesu 'r Cwricwlwm fel a ganlyn:**

1. Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd
2. Nodi, crisialu a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser
3. Deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion

## Disgrifiadau dysgu

Rydym yn defnyddio'r **Disgrifiadau Dysgu** ar gyfer bob **Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig** ar gyfer asesu a chynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr. Mae'r rhain yn cyfateb **yn fras** i ddisgwyliadau ar gyfer oedrannau 5, 8, 11, 14 a 16 ac yn cynnig arweiniad ar sut y dylai dysgwyr ddangos cynnydd o fewn pob Datganiad.




Ni ddefnyddir y rhain fel rhestr o flychau i'w ticio, ond yn hytrach fel arfau i'w hystyried wrth gynllunio ar gyfer cynnydd ein dysgwyr.

Yn ychwanegol at hyn, mae egwyddorion cynnydd sy'n sail i'n cynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr ar draws y meysydd dros amser.

| Egwyddorion Cynnydd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol | Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y Meysydd | Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau | Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau | Cynyddu effeithiolrwydd |

# Dulliau asesu ysgol Morfa Nefyn

Trafodir cynnydd ac anghenion dysgwyr a grwpiau penodol o ddysgwyr yn rheolaidd drwy ddeialog broffesiynol er mwyn cynllunio ar gyfer cynnydd pellach. Bydd trafodaethau o'r fath hefyd yn hwyluso ac yn hyrwyddo unrhyw drosglwyddo a phontio rhwng dosbarthiadau ac ysgolion.

Gwneir defnydd ffurfiannol o brofion cenedlaethol a phrofion mewnol yn ôl y galw i dracio cynnydd.

Cynhelir trafodaethau rheolaidd gyda'r dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr i drafod cynnydd gan gynnwys asiantaethau allanol pan fo angen.

**Gwelir isod ddulliau asesu yr ysgol:**

| Dull | Beth fyddwn yn ei wneud? |
|---|---|
| Asesiad ar fynediad | • Rydym yn arsylwi ac yn cofnodi cyrrhaeddiad bob dysgwr ar eu mynediad i'r ysgol yn Meithrin a'r Derbyn neu o ysgol drosglwyddo. Mae'r asesiadau cychwynnol hyn yn cael eu defnyddio i dracio cynnydd a datblygiad. |
| Asesu parhau o ddydd i ddydd (Asesu ar Gyfer Dysgu) | • Defnyddio cymeriadau Dewi dysgu a Lleucu Llwyddiant i osod meini prawf llwyddiant i ddarnau o waith.<br>• Rhoi adborth i ddisgyblion yn seiliedig ar y meini prawf (llafar ac ysgrifenedig).<br>• Mae trafodaeth am waith yn ganolbwynt i'r asesu fel bod y plant yn ymwybodol o'u llwyddiant a'u targedau. Mae ystol Meddyfryd o dwf yn weledol ymhob llyfr gwaith fel y gellir cyfeirio atynt yn hawdd mewn trafodaeth adborth.<br>• Amser i'r dysgwyr ymateb i adborth drwy sgwrs, cyfle i ymarfer camgymeriad neu ymarfer sillafu.<br>• Amser i wella a chywiro Gwaith. |
| Cefnogi / cynnydd tracio disgyblion | • Asesiadau mewnol mewn darllen a mathemateg ddwywaith y flwyddyn i adnabod cynnydd.<br>• Asesiadau personol mewn llythrennedd a rhifedd yn flynyddol.<br>• Cynnydd bob plentyn yn cael ei dracio drwy system dracio.<br>• Ffeil tracio unigol yn cael ei gadw ar gyfer dysgwyr ADY, gan wneud defnydd o brofion llythrennedd a rhifedd addas.<br>• Her sillafu o'r geiriau aml-ddefnydd yn tracio sillafu dysgwyr yn wythnosol.<br>• 'Munud y dydd' yn tracio a dathlu llwyddiant dysgwyr mewn tablau yn dymhorol. |
| Adrodd i rieni | • Noson rieni yn cael ei gynnal ddwyaith y flwyddyn i drafod cyrrhaeddiad a thargedau. Targedau penodol yn cael eu rhannu gyda'r rhieni.<br>• Rhieni yn derbyn adroddiad blynyddol yn nhymor 3.<br>• Cyfle i weld llyfrau gwaith y disgyblion ddwy waith y flwyddyn yn y nosweithiau rhieni. Enghreifftiau o waith y disgyblion yn cael eu rhannu yn gyson ar Seesaw a google classroom.<br>• Prynhawniau agored yn cael eu trefnu i rieni weld eu plant ar waith yn y dosbarth. |
| Trosglwyddo | • Disgyblion yr ysgol yn trosglwyddo i Ysgol Nefyn.<br>• Cynhelir cyfarfod proffesiynol rhwng staff y ddwy ysgol i rannu a throsglwyddo gwybodaeth.<br>• Mae cyswllt dda rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin. Mae amserlen blynyddol yn rhoi cyfle i'r plant ymweld a'r ysgol yn rheolaidd o fewn y flwyddyn. |

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach ar ôl darllen ein llawlyfr, cysylltwch gyda'r Pennaeth.**

**Mae llawer mwy o wybodaeth am yr ysgol,**
**gan gynnwys copi o bolisiau amrywiol ar gael ar wefan yr ysgol.**